# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 12 Hydref 2011** |
| Amser: | **09: - 11:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Datganodd Peter Black fuddiant o dan Eitem 6 fel Aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

## 2. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-2013 – Craffu ar waith y Gweinidog Cyllid

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Andrew Jeffries, Pennaeth Cyllidebu Strategol – Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad; Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol; a Michael Hearty, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog.

Camau i'w cymryd:

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i:

- Egluro'r dyraniadau ychwanegol a wnaed i gefnogi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth;
- Darparu ffigurau ar nifer y bobl yng Nghymru sy'n talu'r dreth gyngor lawn a'r canran sy'n cael gostyngiad mewn budd-daliadau, gan gynnwys cyfraddau casglu'r dreth gyngor.
- Darparu rhagor o fanylion ynghylch pa raglenni cyfalaf a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun seilwaith cenedlaethol dros 10 mlynedd a phwy fydd yn gyfrifol am ymdrin â'r cronfeydd hynny.

## 3. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-2013 - tystiolaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

3.1 Croesawodd y Pwyllgor Phil Fiander, Cyfarwyddwr Rhaglenni, CGGC; Michelle Matheron, Uwch Swyddog Polisi, CGGC; Joy Kent, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru; a Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru.

3.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd CGGC i ddarparu:

- Manylion y cyllid sydd ar gael ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector, ac amlinelliad o'r effaith y mae'n ei gael ar allu sefydliadau penodol y trydydd sector i symud a chael gafael ar adnoddau ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfrannau cyllid y sector gwirfoddol a ddaw o grantiau, contractau sy'n cael eu caffael ar sail cystadleuaeth, ac ati.
- Gwybodaeth o'r 'arolwg dirwasgiad' diweddaraf gan y CGGC ar y cynnydd yn y galw am wasanaethau'r sector gwirfoddol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

## 5. Aelodau i ystyried y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-2013.

## 6. Adroddiad drafft ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012-2013

6.1 Ni ddaeth Peter Black AC i'r rhan hon o'r cyfarfod, gan ei fod yn Gomisiynydd Cynulliad.

6.2 Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar adroddiad drafft y Pwyllgor ar y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012-2013 a'i gymeradwyo.

## 7. Ymchwiliad posibl i Gyllid Datganoli

7.1 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am gwmpas ymchwiliad ar gyllid datganoli a Chomisiwn y DU a'i gymeradwyo.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.